**Julie James AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MAL/CG/0113/18

Mr M. Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mick.Antoniw@cynulliad.cymru

7 Mawrth 2018

Annwyl Mick

Ysgrifennais atoch ym mis Ionawr ynghylch defnyddio pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n rhan o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU (*"y Bil"*). Yn y llythyr hwnnw dywedais y byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am ystod a graddfa'r is-ddeddfwriaeth a allai fod yn ofynnol.

Bu swyddogion yn parhau i weithio ar gyflwyno is-ddeddfwriaeth dan y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Atodlen 2 i'r Bil. Bellach mae gennym ddarlun cliriach o nifer y darnau o is-ddeddfwriaeth a fydd yn ofynnol er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru gywiro diffygion mewn deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli i Gymru. Aeth y gwaith hwnnw yn ei flaen heb amharu ar safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau yn ymwneud â datganoli yn y Bil, sydd - fel y gwyddoch - yn destun cryn dipyn o anghytundeb o hyd rhwng y gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU.

Yn fy llythyr blaenorol, dywedais bod dros 600 o offerynnau deddfwriaethol sy'n deillio o'r UE wedi'u nodi o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru. Mae dadansoddiad pellach (sy'n parhau i fynd rhagddo) wedi gostwng y nifer hwn i tua 400 o offerynnau diffygiol sy'n debygol o fod angen sylw. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tua 20 o'r rheiny angen eu trin drwy offeryn cywiro 'unigol' penodol, gyda thua 380 yn medru cael sylw drwy ddarpariaethau mewn offerynnau cywiro cyfunol.

Mae'n bwysig nodi hefyd y gellid o bosib ymdrin â rhai offerynnau diffygiol drwy neu o dan ddeddfwriaeth sylfaenol newydd, naill ai gan nad oes modd eu cywiro'n synhwyrol neu am eu bod yn rhan o fframwaith deddfwriaethol newydd (o bosib ar lefel Prydain neu'r DU). Gallai hyn greu cyfresi newydd o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Fe fyddwch yn ymwybodol bod trafodaethau am y materion hyn yn parhau rhwng y gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe welwch o'r ffigurau uchod y gellid ymdrin â'r rhan fwyaf o’r offerynnau diffygiol sy'n deillio o'r UE drwy offerynnau cywiro cyfunol. Nid oes cadarnhad eto faint o offerynnau o'r fath fydd yn angenrheidiol, er y bydd y ffigur yn dod yn gliriach wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae'r nifer sy'n ofynnol yn debygol o newid ar sail nifer y diffygion a nodir o fewn pob offeryn deddfwriaethol, natur y diffygion hynny a chymhlethdod yr atebion angenrheidiol i'w cywiro.

Mae swyddogion yn parhau i edrych ar y diffygion ac yn ceisio cadarnhau beth yw'r ffordd orau o'u cywiro. Byddaf yn rhoi rhagor o wybodaeth pan fydd gennym ddarlun cliriach ynghylch nifer yr Offerynnau Statudol cyfunol sy'n ofynnol.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip